# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1245(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008

**At Bethan Jenkins:**

Yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog ar 23 Medi, buoch yn holi am y fenter gymunedol newydd gwerth £350 miliwn i arbed ynni a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 12 Medi fel rhan o becyn effeithlonrwydd ynni ehangach.

Bydd y fenter yn cynnwys cynlluniau cymunedol a chaiff ei hanelu at ardaloedd o amddifadedd uchel, gan ganolbwyntio ar ddulliau gwresogi sy'n fwy effeithlon o ran ynni. Yn ôl amcangyfrifon Llywodraeth y DU, gallai'r cynllun helpu rhyw 100 o gymunedau ar hyd a lled Prydain ond nid yw'r cymunedau hynny'n hysbys hyd yn hyn.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Ofgem a'r diwydiant ynni i sicrhau bod Cymru yn cael cymaint o fudd ag y bo modd a bod cymaint o gyfatebolrwydd ag y bo modd rhwng y fenter newydd a chynlluniau sy'n bodoli eisoes.

Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y fenter a bydd yn destun ymgynghoriad. Nid ydym wedi llunio'r manylion eto ond rydym yn trafod y goblygiadau i Gymru â Llywodraeth y DU. Rydym yn ymddiddori'n arbennig yn y posibilrwydd y bydd y fenter hon yn diogelu cyflenwadau ynni i gymunedau yn y dyfodol trwy osod technolegau adnewyddadwy.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1250(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008

**At Chris Franks:**

Yn ystod Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar 23 Medi, fe sonioch chi am lifogydd mewn rhannau o Dde Cymru. Dyma anfon ymateb atoch yn y cyswllt hwn.

Roedd y llifogydd diweddar yn debyg i ddigwyddiadau'r haf diwethaf, ac fe'u hachoswyd gan law trwm a arweiniodd at lifogydd a effeithiodd ar eiddo ledled y De. O ystyried natur y digwyddiadau hyn, a natur sydyn y llifogydd, nid oes modd rhybuddio pawb am lifogydd sydd ar fin digwydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl gwella ein parodrwydd am ddigwyddiadau tebyg. Ar sail yr adborth a gafwyd gan yr awdurdodau lleol, rwy'n ei chael ar ddeall i'r gwaith a wnaed yn dilyn llifogydd yr haf diwethaf helpu i wella ein parodrwydd am y llifogydd diweddaraf yn y Bari.

Nod yr astudiaeth beilot a gomisiynwyd gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar lifogydd yr haf diwethaf yn y Bari, oedd gwella ein hymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Roedd yn cynnwys asesiad manwl, ar y cyd â'r holl awdurdodau perthnasol, o'r problemau o ran llifogydd a'r systemau draenio presennol sy'n gwasanaethu dalgylch Coldbrook. Yn sgil hyn, cafwyd dealltwriaeth lawer gwell o faterion draenio lleol, a rhannwyd y wybodaeth hon â chynrychiolwyr y gymuned leol sy'n aelodau o'r grŵp astudio. Rwy'n ei chael ar ddeall i'r cydweithredu agos â'r cyhoedd yn lleol arwain at gyfraniadau gwerthfawr i ddatblygu gwelliannau lleol. Bydd fy swyddogion yn defnyddio'r profiadau a gafwyd yn ystod yr ymarfer hwn i lywio'r broses o wella'n dull o reoli risgiau yn y dyfodol ledled Cymru.

O ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn, rhoddwyd ystod o welliannau penodol ar waith yn y dalgylch. Sefydlwyd gweithdrefnau cynnal a chadw cadarn ar gyfer y cyrsiau dŵr a'r cwlfertau presennol, nodwyd rhwystrau yn y systemau a'u tynnu oddi yno, a chafodd amodau mynediad at rannau o'r cwlfert eu gwella. Rhoddwyd gwelliannau ar waith hefyd yn achos llifogydd trostir, i sicrhau bod unrhyw lifogydd difrifol o'r fath yn osgoi eiddo lle bo modd.

Cam nesaf y prosiect fydd nodi meysydd eraill i'w gwella, gan ganolbwyntio'n benodol ar gamau fel gwella cadernid a gwella ymwybyddiaeth.

Er bod y gwaith hwn wedi gwella capasiti ac effeithlonrwydd y systemau presennol yn y dalgylch, ni fydd erioed yn bosibl dileu'r perygl o lifogydd yn gyfan gwbl. Yn anffodus, dyma ganlyniad anochel datblygu eiddo mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yn fwy parod am ddigwyddiadau o'r fath, ac rwy'n deall i'r paratoadau a roddwyd ar waith cyn y llifogydd gynorthwyo i leihau'r effeithiau andwyol posibl. Rhoddwyd gwybod i staff gweithredol am y risg o lifogydd a'u rhybuddio i fod wrth law, archwiliwyd cyrsiau dŵr a chlirio unrhyw rwystrau o fannau bregus. Sicrhawyd bod bagiau tywod ar gael, a darparwyd cymorth lle'r oedd yn briodol. Er y gellir rhoi gwelliannau ychwanegol ar waith, rwy'n ei chael ar ddeall bod yr ymateb i'r llifogydd diweddar yn fwy deallus, wedi'i gynllunio a'i gydlynu'n well, a bod ein systemau draenio, yn arbennig yn ardal y Bari, wedi gweithredu'n fwy effeithiol na'r haf diwethaf.

O ganlyniad i'r llifogydd diweddar, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu adolygu ei flaenoriaethau ar gyfer llifogydd yn y dyfodol agos, ac rwy'n siŵr y bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod yr astudiaeth yn y Bari. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol ledled Cymru i fynd i'r afael â llifogydd.

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Syr Michael Pitt adolygiad o lifogydd yr haf diwethaf, a gyhoeddwyd yn ystod yr haf. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn ystyried goblygiadau'r adolygiad hwn i Gymru, ac mae Jane Davidson yn bwriadu ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad tua diwedd mis Tachwedd i nodi sut bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

Hyd yn hyn, nid yw unrhyw awdurdod lleol wedi dod at Lywodraeth y Cynulliad i geisio cymorth ariannol o ganlyniad i'r llifogydd diweddar.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1298(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Hydref 2008

**At Kirsty Williams:**

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r ddadl a gafwyd, yn ystod y cyfarfod llawn ar 23 Medi 2008, ynglŷn â'r contract RIBS newydd i fynd i'r afael ag ardaloedd yng Nghymru nad ydynt wedi'u cysylltu â gwasanaeth band-eang.

Prin fod yn rhaid i mi ddweud wrthych fod nifer o gartrefi a busnesau mewn rhai mannau yng Nghymru yn parhau i'w chael yn anodd cael gwasanaeth band-eang sylfaenol. Fel y gwnaethoch gydnabod, bydd cyhoeddi'r contract RIBS newydd yn newyddion da.

Cynhelir y broses gaffael newydd o dan y gymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol (57/2005) bresennol ar gyfer prosiect RIBS. Mae'r gymeradwyaeth hon yn egluro mai lefel uchaf y gyfradd ymyrraeth cymorth gwladwriaethol y gellir ei chynnig yw 50%.

I gefnogi hyn, bydd tua £2 filiwn ar gael ym mhob un o'r ddwy flynedd ariannol nesaf i fynd i'r afael â'r ardaloedd sy'n parhau'n ddigyswllt â band-eang. Bydd y cwmni sy'n ennill y contract yn darparu arian cyfatebol, sy'n golygu y bydd tua £8 miliwn ar gael i fynd i'r afael â gweddill y mannau digyswllt yng Nghymru.

Bydd ymdrin â chymaint o ardaloedd digyswllt â phosibl gyda'r buddsoddiad sylweddol hwn yn rhan allweddol o'r broses gaffael. Am resymau ymarferol amlwg, nid yw hyn yn gwarantu y bydd pob ardal ddigyswllt yn derbyn band-eang trwy gyfrwng prosiect RIBS oherwydd, yn y pen draw, bydd yn rhaid cymryd materion masnachol, technegol a chyllidebol i ystyriaeth.

Dylech barhau i annog unrhyw un yn eich etholaeth sydd heb wasanaeth band-eang sylfaenol o hyd i nodi'r diffyg hwn ar wefan cofrestru ardaloedd digyswllt Llywodraeth y Cynulliad ar www.bnrw.org.uk neu dros y ffôn ar 01443 846700.

**Gwybodaeth ychwanegol a OAQ(3)1261(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2008**

**At Christine Chapman:**

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 23 Medi, addewais ysgrifennu atoch ynghylch y gwasanaeth bws rhwng Aberdâr ac Abertawe.

Mae Veolia wedi cadarnhau y gwnaed y penderfyniad i dynnu ei wasanaeth masnachol yn ôl oherwydd niferoedd rhy isel o deithwyr a chostau tanwydd cynyddol. Mae unrhyw benderfyniad sy'n arwain at dynnu gwasanaeth yn ôl yn destun gofid ond deallaf fod Stagecoach yn rhedeg gwasanaeth bob hanner awr rhwng Aberdâr a Hirwaun yn ystod yr wythnos, tra bod Silverline yn rhedeg gwasanaethau rhwng Hirwaun ac Abertawe bob dwy awr. Yn ogystal, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ystyried cynnig gan gwmni bysiau arall i gyflwyno gwasanaeth rhwng Aberdâr ac Abertawe, er y byddai hyn ddim ond ar ddydd Sadwrn i ddechrau.

Cyfanswm ein dyraniadau i awdurdodau lleol yn 2008-09 o dan y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol oedd £10,857,600, gan gynnwys £711,222 i Rondda Cynon Taf. Mae'r grant hwn yn ategu gwariant yr awdurdodau lleol ar sybsideiddio gwasanaethau bysiau a gwasanaethau cludiant cymunedol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol ond yn anfasnachol. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu pa wasanaethau bysiau a chludiant cymunedol yn eu hardaloedd ddylai dderbyn cyllid cyhoeddus.